Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

# Hyfforddi fel Arolygydd Cofrestredig yn y sector Cynradd

Ydych chi'n barod i ddechrau eich cais? Cliciwch yma

## Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn chwilio am Arolygwyr Cymheiriaid ac Arolygwyr Ychwanegol profiadol i hyfforddi fel Arolygwyr Cofrestredig yn y sector cynradd.

Fel Arolygydd Cofrestredig byddwch yn chwarae rhan allweddol mewn dylanwadu ar addysg yng Nghymru. Byddwch yn arwain timau arolygu, gan drefnu a sicrhau ansawdd gwaith y tîm. Bydd gofyn i chi baratoi eich arolygiad ymlaen llaw ac ymgymryd ag ystod lawn o weithgareddau arolygu. Byddwch yn gyfrifol am ysgrifennu'r adroddiad arolygu ac yn chwarae rhan ym mhroses golygu a sicrhau ansawdd Estyn.

## Cymhwysedd

Byddwch chi'n gallu arolygu drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg.

I ddod yn Arolygydd Cofrestredig, rhaid bod gennych:

- hanes da o arolygu ac adborth cadarnhaol ar ôl gweithio gydag Estyn, er enghraifft wedi derbyn graddau da (gradd A yn bennaf) mewn gwerthusiadau gan arolygwyr cofnodol
- cefnogaeth cadeirydd y llywodraethwyr (lle mae'r ymgeisydd yn bennaeth), pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr (lle nad yw'r ymgeisydd yn bennaeth) neu'n gyflogwr (os yw'r ymgeisydd mewn cyflogaeth llawn neu ran amser, ond nid mewn ysgol).

## Dewis a hyfforddi

Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- **Rhan un:** Cyfnod cyn-ddarllen a pharatoi – dysgu o bell ar 2 Gorffennaf 2026.
- **Rhan dau:** Hyfforddiant ac asesiadau wyneb yn wyneb ar **22-23 Medi 2026** (lleoliad i'w gadarnhau)
- **Rhan tri:** Arolygiad wedi'i asesu, gydag AEF yn gwerthuso eich gwaith.

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant ac asesu'n llwyddiannus, bydd eich enw yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata Arolygydd Cofrestredig Estyn (mae ffi yn daladwy). Yna, gallwch ddechrau tendro am waith fel Arolygydd Cofrestredig yn y sector cynradd.

## Cymeradwyaeth

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni derbyn cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn cyn yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu.  Bydd e-bost yn mynd at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

## Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I symud ymlaen i'r arolygiad asesedig, mae'n rhaid i chi gwblhau'r asesiadau'n llwyddiannus a chael tystysgrif Uwch ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Rhaid i'r dystysgrif fod yn llai na thair blynedd oed ac yn cynnwys y categori Gweithlu Plant. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich tystysgrif, bydd ein tîm Cynllunio ac Ymestyn yn cysylltu â chi gyda manylion yr arolygiad asesedig. Yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd arweiniol yn asesu eich gwaith ac yn rhoi gradd i chi ar ddiwedd wythnos yr arolygiad.

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am dystysgrif GDG cyn gynted ag y byddwch wedi pasio rhan 2 – gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r dystysgrif gael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd gennych eich GDG, neu os oes un gennych eisoes, anfonwch gopi wedi'i sganio at dbschecks@estyn.gov.wales a chynnwys enw a dyddiad yr hyfforddiant fel y gallwn wirio ei fod yn bodloni ein gofynion. Ni fyddwch yn cael eich defnyddio nac yn cael eich ystyried fel eich bod wedi pasio'r hyfforddiant yn llawn nes bod eich tystysgrif wedi'i derbyn.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/OTLEIZ/
**Dyddiad cau:** 20 Mai 2026

Byddwn yn cysylltu â phawb gyda chanlyniad eu cais erbyn 5 Mehefin 2026.
Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.
Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.